# Creu
# blwch ystlumod

Wrth i chi gysgu yn eich gwlâu gyda'r os, mae ystlumod angen rhywle i gysgu'n sownd hefyd. Mae rhai ystlumod yn ddigon bychan i ffitio mewn blwch matsis, felly mae'r blwch yma'n berffaith fel man clwydo.

## Byddwch angen

- Astell bren wedi'i dorri'n bedwar hyd gwahanol
- Stribedi tenau o bren wedi'u torri rhwng 15cm a 25cm o drwch (a dim mwy)
- Hoelion
- Gwifren

**1** Torrwch ddau stribed tenau o bren i hyd yr ail ddarn hiraf o'r astell bren. Rhowch nhw wrth ben y darn mawr o bren ar bob ochr. Rhowch yr ail ddarn o'r astell ar ei ben a'i hoelio i'w le.

**2** Torrwch ddau stribed tenau i hyd y trydydd darn hiraf o'r astell bren. Rhowch nhw wrth ben yr ail ddarn o bren ar bob ochr. Rhowch y trydydd darn o'r astell ar ei ben a'i hoelio i'w le.



**3** Hoeliwch y darn lleiaf o'r astell ar ei ben i greu to.

**4** Tarwch ddwy hoelen fawr i mewn i'r blwch ystlumod fel y dangosir yn y llun. Defnyddiwch wifren i'w gysylltu wrth goeden neu adeilad.



**5** Ceisiwch ei roi mewn man cysgodol gyda lle clir i hedfan o'i flaen.



yn rhoi cartref i fyd natur

Diolch i Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod am y cynllun yma.

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Nick Cunard (rspb-images.com).